# Atebion i Gwestiynau nas cyrhaeddwyd yn y Cyfarfod Llawn
# 7 Mawrth 2000

[R] yn dynodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.

## Cwestiynau i'r Prif Ysgrifennydd

### Canllawiau ar Lwfansau Cynghorwyr

**C7 David Melding:** A yw'r Cyngor Partneriaeth wedi trafod gweithredu canllawiau ar lwfansau cynghorwyr yng Nghymru? (OAQ3872)

**Y Prif Ysgrifennydd (Rhodri Morgan):** Nid yw'r Cyngor Partneriaeth wedi ystyried lwfansau cynghorwyr yng Nghymru hyd yma.

### Adroddiad y Pwyllgor Dethol ar Faterion Cymreig ar Amcan 1

**C8 Kirsty Williams:** Pa drafodaethau y mae'r Prif Ysgrifennydd wedi eu cael gydag Ysgrifennydd Gwladol Cymru ynghylch adroddiad y Pwyllgor Dethol ar Faterion Cymreig ar Amcan 1? (OAQ3886)

**Y Prif Ysgrifennydd:** Yr wyf yn cael trafodaethau rheolaidd ag Ysgrifennydd Gwladol Cymru ar amrediad o faterion sydd yn effeithio ar Gymru. Mae'n gwbl ymwybodol o'm teimladau ynglŷn â chynnwys adroddiad y Pwyllgor Dethol ar gronfeydd strwythurol Ewropeaidd.

### Hyrwyddo Cynhwysiant Cymdeithasol (Cymorth i Sefydliadau Gwirfoddol)

**C9 Jane Davidson:** Ym mha fodd all y Cynulliad gynnig cymorth i sefydliadau gwirfoddol sydd yn hyrwyddo cynhwysiant cymdeithasol yn ein cymunedau? (OAQ3877)

**Y Prif Ysgrifennydd:** Mae'r Cynulliad yn cefnogi mudiadau gwirfoddol drwy annog cyrff cyhoeddus i ddatblygu cytundebau lleol o fewn y sector gwirfoddol. Mae'r cytundebau hyn yn rhoi sylfaen gryfach ar gyfer gweithio mewn partneriaeth i fynd i'r afael â materion lleol.

Yr oedd cylchlythyr 13/99 Cynulliad Cenedlaethol Cymru, a gyhoeddwyd ar 29 Hydref 1999, yn gwahodd mudiadau gwirfoddol, mewn partneriaeth gydag awdurdodau lleol, i enwebu cymuned sydd wedi'i hallgáu yn gymdeithasol i gymryd rhan yn ail rownd rhaglen Pobl mewn Cymunedau, sef ateb dyfeisgar y Cynulliad i fynd i'r afael ag allgáu cymdeithasol. Daeth ceisiadau i law ac maent yn cael eu hasesu ar hyn o bryd.

### Allgáu Cymdeithasol (Pobl Ifanc Mewn Gofal)

**C10 Richard Edwards:** Sut y mae'r Prif Ysgrifennydd yn bwriadu sicrhau nad yw pobl ifanc sydd mewn gofal yng Nghymru yn cael eu hallgáu yn gymdeithasol? (OAQ3876)

**Y Prif Ysgrifennydd:** Mae'r rhaglen Plant yn Gyntaf yn cynnwys nifer o amcanion gyda'r nod o fynd i'r afael ag allgáu cymdeithasol ymysg plant a phobl ifanc sydd mewn gofal. Gan ganolbwyntio ar wella cyfleoedd bywyd plant sydd mewn gofal, mae Plant yn Gyntaf yn cynnwys amcanion penodol, gyda'r bwriad o hybu cynhwysiant mewn ysgolion a hybu perfformiad academaidd; lleihau'r gyfradd troseddu ymysg plant sydd mewn gofal; hybu eu datblygiad unigol iach a lleihau'r posibilrwydd o wynebu diweithdra ar ôl gadael gofal.

Yn ogystal â Phlant yn Gyntaf, mae'r Mesur Plant (Gadael Gofal) yn darparu ar gyfer hybu cynhwysiant cymdeithasol pobl ifanc sydd yn gadael gofal. Ymysg prif ddarpariaethau'r mesur mae dyletswydd ar i awdurdodau lleol fodloni anghenion pobl ifanc 16 ac 17 mlwydd oed a oedd gynt yn eu gofal a chynlluniau llwybr, a fydd yn cymryd cyfrifoldeb dros gynllun gofal presennol unigolyn ar ôl iddo/iddi adael gofal ac a fydd yn weithredol o leiaf hyd nes y bydd yr unigolyn yn un-ar-hugain mlwydd oed.

**Ymateb i 'Gwell Cymru'**

**C11 Cynog Dafis:** A yw'r Prif Ysgrifennydd wedi derbyn ymateb gan Ysgrifennydd Gwladol Cymru i'r cynllun strategol, 'Gwell Cymru'? (OAQ3896) ***Tynnwyd yn ôl.***

**Adroddiad y Pwyllgor Dethol ar Faterion Cymreig ar Amcan 1**

**C12 Mick Bates:** Pa drafodaethau a gafodd y Prif Ysgrifennydd ynghylch adroddiad diweddar y Pwyllgor Dethol ar Faterion Cymreig ar gyllido Amcan 1 yng Nghymru? (OAQ3874)

**Y Prif Ysgrifennydd:** Yr wyf yn cael trafodaethau rheolaidd ag Ysgrifennydd Gwladol Cymru ar amrediad o faterion sydd yn effeithio ar Gymru. Mae'n gwbl ymwybodol o'm teimladau ynglŷn â chynnwys adroddiad y Pwyllgor Dethol ar gronfeydd strwythurol Ewropeaidd.

**Pobl sydd yn Ceisio Lloches**

**C13 Helen Mary Jones:** Pa drafodaethau y mae'r Prif Ysgrifennydd wedi eu cael gyda'r Ysgrifennydd Cartref ynghylch sefyllfa pobl sydd yn ceisio lloches yng Nghymru? (OAQ3898) ***Tynnwyd yn ôl.***

**Cau Pobl Anabl Allan o'r Gweithlu**

**C14 Dafydd Wigley:** Pa gamau fydd y Prif Ysgrifennydd yn eu cymryd i sicrhau nad yw pobl anabl yn cael eu cau allan o'r gweithlu? (OAQ3896) ***Tynnwyd yn ôl.***

**Protocol ar Ryddid Gwybodaeth**

**C15 Jenny Randerson:** Pa drafodaethau y mae'r Prif Ysgrifennydd wedi eu cael ynghylch y posibilrwydd o gael y Cynulliad i sefydlu ei brotocol ei hun ar ryddid gwybodaeth? (OAQ3873)

**Y Prif Ysgrifennydd:** Yn unol ag Adran 70 Deddf Llywodraeth Cymru 1998 a Rheol Sefydlog Rhif 17, mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru wedi mabwysiadu ei god ymarfer ynghylch hawl y cyhoedd i weld gwybodaeth.

Mae'r Mesur Rhyddid Gwybodaeth sydd ar hyn o bryd yn cael ei drafod yn y Senedd yn gosod dyletswydd ar bob awdurdod cyhoeddus a orchuddir gan y Mesur i fabwysiadu a chynnal cynllun cyhoeddi sydd yn ymwneud â chyhoeddi gwybodaeth yr awdurdod ac i adolygu'r cynllun o bryd i'w gilydd. Fel pob awdurdod cyhoeddus sydd yn cael ei gynnwys yn y ddeddfwriaeth rhyddid gwybodaeth, bydd cynllun cyhoeddi Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn cael ei gymeradwyo gan y comisiynydd gwybodaeth a benodir dan ddarpariaethau'r un ddeddfwriaeth. Bydd Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn awyddus i adolygu ei god presennol yn sgîl gofynion y ddeddfwriaeth, unwaith y daw i rym.

**Strategaeth Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu**

**C16 Val Feld:** A oes unrhyw gynlluniau i ymchwilio i fanteision hybu dinasyddiaeth weithredol yng Nghymru trwy gynhyrchu a gweithredu strategaeth technoleg gwybodaeth a chyfathrebu drosfwaol ar gyfer Cymru? (OAQ3900)

**Y Prif Ysgrifennydd:** Mae prosiect Cymdeithas Wybodaeth Cymru, a gyd-gyllidir gan Awdurdod Datblygu Cymru a'r Comisiwn Ewropeaidd, eisoes wedi gwneud hyn. Yn ei strategaeth a'i gynllun

gweithredu ar gyfer arwain Cymru ymlaen i'r oes wybodaeth, a gyhoeddwyd ym mis Mawrth 1999, nododd y manteision a gynigiai'r gymdeithas wybodaeth o ran magu agwedd agored yn y broses ddemocrataidd, gan felly alluogi cynhwysiant cymdeithasol a chyfranogiad y gymuned. Wrth ddatblygu strategaeth technoleg gwybodaeth a chyfathrebu gorfforaethol ar gyfer y Cynulliad, rhoddir ystyriaeth lawn i strategaeth Cymdeithas Wybodaeth Cymru ac i'r angen i'r technolegau hynny gefnogi'r gwaith o weithredu egwyddorion sylfaenol y Cynulliad o fod yn agored a chynhwysol.

### Cysylltiadau Agosach â Senedd yr Alban

**C17 John Griffiths:** Pa gamau fydd y Prif Ysgrifennydd yn eu cymryd i ffurfio cysylltiadau agosach â Senedd yr Alban? (OAQ3887)

**Y Prif Ysgrifennydd:** Mae gennym gysylltiadau gwleidyddol a swyddogol cryf eisoes gyda Gweithrediaeth yr Alban ar nifer o faterion. Nid yw'r berthynas rhwng y Cynulliad a Senedd yr Alban yn fater pennaf imi ei ystyried, ond croesawn unrhyw gamau i'w chryfhau.

### Pobl Ifanc sydd wedi eu Hallgáu yn Gymdeithasol

**C18 Pauline Jarman:** Sut y mae'r Prif Ysgrifennydd yn bwriadu annog pobl ifanc sydd wedi eu hallgáu yn gymdeithasol i ymuno â'r gweithlu? (OAQ3892) ***Tynnwyd yn ôl.***

### Cynhadledd Rynglywodraethol yr UE

**C19 Ieuan Wyn Jones:** A oes gan y Cynulliad unrhyw gyfraniad i broses cynhadledd rynglywodraethol yr Undeb Ewropeaidd ar ddiwygio er mwyn ehangu'r Undeb, a lansiwyd o dan lywyddiaeth Portiwgal ym mis Chwefror? (OAQ3903) ***Tynnwyd yn ôl.***

### Cyfleoedd Statws Amcan 1

**C20 Nick Bourne:** Pa gynnydd a wnaethpwyd gan y Prif Ysgrifennydd a Chabinet Cymru mewn perthynas i sicrhau y gwneir defnydd llawn o'r cyfleoedd sydd yn codi o ganlyniad i statws Amcan 1? (OAQ3901)

**Y Prif Ysgrifennydd:** Er mwyn sicrhau y gwneir defnydd llawn o'r cyfleoedd sydd yn deillio o Amcan 1 mae'n ofynnol i ni roi prosiectau a rhaglenni gerbron sydd yn cyflwyno ein hamcanion ar gyfer creu swyddi a chynyddu cynnyrch mewnwladol crynswth yn effeithiol. Gofynnwyd i'r prif gyrff sydd yn ymwneud â gweithgareddau datblygu economaidd ddatblygu cynlluniau effeithiol ar gyfer defnyddio cronfeydd strwythurol mewn partneriaeth gyda'r sector preifat, llywodraeth leol a'r sector gwirfoddol, i sicrhau ein bod yn barod i weithredu'r rhaglen cyn gynted ag y cytunir arni gyda'r Comisiwn Ewropeaidd.

### Cyllido'r Rhaglen Amcan 1

**C21 Janet Davies:** A all y Prif Ysgrifennydd adrodd yn ôl ar unrhyw gynnydd a wnaethpwyd yn y trafodaethau diweddar rhyngddo ef â Phrif Ysgrifennydd y Trysorlys mewn perthynas â chyllido'r rhaglen Amcan 1? (OAQ3902) ***Tynnwyd yn ôl.***

### Adroddiad y Pwyllgor Dethol ar Faterion Cymreig ar Amcan 1

**C22 Christine Humphreys:** Pa drafodaethau a gafodd y Prif Ysgrifennydd gydag Ysgrifennydd Gwladol Cymru ynghylch adroddiad diweddar y Pwyllgor Dethol ar Faterion Cymreig ar gyllido Amcan 1 yng Nghymru? (OAQ3897)

**Y Prif Ysgrifennydd:** Yr wyf yn cael trafodaethau rheolaidd ag Ysgrifennydd Gwladol Cymru ar amrediad o faterion sydd yn effeithio ar Gymru. Mae'n gwbl ymwybodol o'm teimladau ynglŷn â chynnwys adroddiad y Pwyllgor Dethol ar gronfeydd strwythurol Ewropeaidd.

### Effaith Ansawdd Aer Gwael

**C23 Alun Cairns:** A wnaiff y Prif Ysgrifennydd ddatganiad ar effaith ansawdd aer gwael ar allgáu cymdeithasol ac amddifadedd? (OAQ3905)

**Y Prif Ysgrifennydd:** Mae llygredd aer yn broblem ddifrifol sydd yn effeithio ar bob un ohonom. Mae'n effeithio waethaf ar bobl mwyaf bregus ein cymdeithas—y rheini sydd yn dioddef o asthma, afiechydon y galon a'r ysgyfaint a phobl hŷn. Mae'r strategaeth ansawdd aer ar gyfer Lloegr, yr Alban, Cymru a Gogledd Iwerddon a lansiwyd ym mis Ionawr yn gosod fframwaith ar gyfer sicrhau aer glanach a fydd o fantais i holl gymunedau Cymru.

Mae gwerthoedd cyhoeddedig y Cynulliad yn cynnwys hybu cynhwysiant cymdeithasol. Yn ystod dadl y Cyfarfod Llawn ar 18 Ionawr cymeradwywyd cynllun gweithredu gennym a fydd yn cynnwys targedau a fydd yn gosod cryn her ar gyfer datblygu economaidd a gwella gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru.

### Allgáu Cymdeithasol (Polisïau Addysg)

**C24 Jonathan Morgan:** A wnaiff y Prif Ysgrifennydd amlinellu sut y bydd polisïau addysg ei weinyddiaeth yn lleihau allgáu cymdeithasol? (OAQ3884) ***Tynnwyd yn ôl.***

### Hyrwyddo Manteision Aelodaeth o'r UE

**C25 Jocelyn Davies:** Pa gynlluniau sydd gan y Prif Ysgrifennydd i'r Cynulliad, mewn ymateb i anogaeth y Swyddfa Dramor, drefnu cyfarfodydd teithiol rhanbarthol i hyrwyddo manteision ein haelodaeth o'r Undeb Ewropeaidd? (OAQ3904) ***Tynnwyd yn ôl.***

### Morglawdd Bae Caerdydd

**C26 Glyn Davies:** Pryd oedd y tro diwethaf i'r Prif Ysgrifennydd drafod morglawdd Bae Caerdydd gydag arweinydd Cyngor Sir Caerdydd? (OAQ3899)

**Y Prif Ysgrifennydd:** Yng nghyfarfod y Pwyllgor Datblygu Economaidd a gynhaliwyd ar 1 Mawrth.

### Diddymu Allgáu Cymdeithasol

**C27 Peter Rogers:** Pa gamau y mae'r Prif Ysgrifennydd yn eu cymryd i ddiddymu allgáu cymdeithasol yng ngogledd Cymru? (OAQ3906)

**Y Prif Ysgrifennydd:** Mae'r rhaglen Pobl mewn Cymunedau ar waith mewn wyth ardal ddifreintiedig drwy Gymru, gan gynnwys tair cymuned yng ngogledd Cymru: stâd Peulwys, Conwy; Southsea a Brynteg, Wrecsam a Deiniolen, Dinorwig a Chlwt-y-Bont yng Ngwynedd. Darparwyd cyfanswm o £301,500 mewn cymorth grant.

Ar gyfer 2001-01 a 2001-02, neilltuwyd £42.7 miliwn i hybu cynhwysiant cymdeithasol. Bydd hyn yn cynnwys rhaglenni i helpu i ddatblygu cymunedau cynaliadwy y gellir eu targedu at ardaloedd trefol a gwledig, yn unol â strategaethau lleol. Yn unol â'r cynllun gweithredu amlinellol a gymeradwywyd gan y Cynulliad ar 18 Ionawr, yr ydym yn ystyried y posibilrwydd o uno'r polisïau a'r rhaglenni sydd ar waith ar hyn o bryd er mwyn targedu pobl sydd yn cael eu hallgáu yn gymdeithasol yn y modd mwyaf effeithiol.

## Datganiad Barn OPIN-2000-0006

**C28 Michael German:** A wnaiff y Prif Ysgrifennydd dynnu sylw Canghellor y Trysorlys yn ffurfiol at gynnwys datganiad barn OPIN-2000-0006? (OAQ3927)

**Y Prif Ysgrifennydd:** Gwnaf.